

<b>CYFARFOD:</b>	<b>Y Cyngor</b>
<b>DYDDIAD :</b>	19 Mai 2022
<b>TEITL :</b>	<b>Addasiadau Cyfansoddiad - Penodi Cynorthwyon Aelodau Cabinet a Threfniadau Rhannu Swyddi Aelodau Cabinet Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021)</b>
<b>AELOD CABINET:</b>	<b>Arweinydd y Cyngor</b>
<b>AWDUR :</b>	<b>Iwan Evans, Swyddog Monitro</b>

### Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn

1. Yn mabwysiadu yr addasiadau i'r Cyfansoddiad (Atodiad 1) er caniatáu gweithredu Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021.
2. Yn derbyn er gwybodaeth yr addasiadau a wnaethpwyd i'r Cyfansoddiad (Atodiad 1) gan y Swyddog Monitro er ymgorffori darpariaethau Adran 58 Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021.
3. Awdurdodi y Swyddog Monitro i wneud newidiadau yn i'r Cyfansoddiad sydd yn deillio o ganlyniad i'r newid yma.

### Cefndir

#### 1. Adran 57 – Penodiad Cynorthwydd i Aelodau Cabinet ac Arweinydd

- 1.1 Mae'r adran yma yn caniatáu ychwanegu darpariaeth o fewn y Cyfansoddiad sydd yn rhoi hawl i Arweinydd y Cyngor benodi Cynorthwyon i Aelodau ac Arweinydd Cabinet. Mae'r gallu i wneud hyn wedi ei greu drwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru)
- 1.2 Rôl cefnogol fydd gan Cynorthwydd. Bydd cynorthwydd gyda hawl i fynychu a siarad mewn cyfarfodydd y Cabinet a Phwyllgorau y Cabinet. Bydd tasgau'r Cynorthwydd wedi eu dirprwyo fel a gytunwyd rhwng yr Aelod a'i Cynorthwydd. Gall hyn gynnwys e.e. mynychu/cadeirio cyfarfodydd; siarad mewn/ agor cyfarfodydd; darllen a gwneud sylwadau ar bapurau gwaith; cyfarfod â Swyddogion; cytuno ar ddatganiadau i'r Wasg ac eistedd fel cynrychiolydd mewn grwpiau addas.

- 1.3 Mae cyfyngiadau ar pwy all fod yn gynhorthwy i Aelod Cabinet sydd wedi eu nodi yn Atodiad 1 o'r Adroddiad. Yn ogystal a hyn mewn Pwyllgorau megis e.e Craffu , Llywodraethu ac Archwilio a Gwasanaethau Democraataidd mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol i Gynhorthwy Cabinet a sydd yn perthnasu i Arweinydd neu Aelod Cabinet.
- 1.4 Mae'r Ddeddf yn amlygu na fydd y cynorthwywyr yma yn Aelod o'r Cabinet, nac chwaith yn gwneud unrhyw benderfyniadau. Ni fydd y pŵer i bleidleisio nac i wneud penderfyniadau yn gallu cael ei ddirprwyo i'r Cynorthwywyr.
- 1.5 Yr argymhelliad yw fod y Cyngor yn mabwysiadu yr addasiadau yma i'r Cyfansoddiad er caniatáu i'r Arweinydd gael y modd os yr ystyrir hyn yn briodol i benodi Cynorthwyon Cabinet.

## **2. Adran 58 – Rhannu Swyddi: Aelodau Cabinet ac Arweinydd Cabinet**

- 2.1 Mae'r adran yma yn ei gwneud hi'n orfodol i wneud trefniadau sy'n galluogi rhannu swyddi Aelodau Cabinet ac Arweinydd Cabinet. Y pwrpas tu ôl creu yr adran yma yw gwneud hi yn haws i hybu amrywiaeth aelodau etholedig drwy roi cyfle i fwy o Gynghorwyr gymryd rhan fel Aelodau o'r Cabinet.
- 2.2 Mae'r Ddeddf yn gosod allan y cyfyngiadau ar y niferoedd caiff yr Arweinydd benodi i rannu swyddi. Nid yw'r Adran yma yn creu mwy o swyddi Cabinet, dim ond galluogi mwy nag un Aelod o'r Cyngor rannu un swydd Cabinet.
- 2.3 Bydd yr Aelodau hyn sydd yn rhannu swydd Cabinet neu Arweinydd yn cyfri fel 'un' i bwrpas pleidleisio a cworwm.
- 2.4 Pan y bu dau neu fwy aelod yn rhannu swydd, gall y mwyafrif o Aelodau o'r Cabinet gynyddu uwchlaw 10 ond ddim mwy na 13 a ble mae aelodaeth y Cabinet yn :
- (a) 11 neu 12 rhaid fod o'leiaf 2 wedi eu penodi i rannu swydd
  - (b) 13 rhaid fod o 'leiaf 3 fod yn rhannu swydd.

- 2.5 Bydd angen trefn rhannu sydd yn eglur i'r Aelodau, Swyddogion budd-ddeiliaid a'r Cyhoedd. Mae Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi darpariaeth ar gyfer y trefniant yma sydd yn seiliedig ar rannu cyfran briodol or cyflog.
- 2.6 Mae gan bob Aelod sydd yn rhannu hawl mynychu y Cabinet. Mae un pleidlais i bob swydd yn y Cabinet, ac felly os oes dau Aelod yn rhannu swydd, un pleidlais sydd ganddynt rhwng ei gilydd. Fodd bynnag o safbwynt cworwm ystyrir presenoldeb aelodau sydd yn rhannu fel un aelod.
- 2.7 Bydd sawl mater i'w gytuno gan yr Aelodau sydd wedi ei penodi i rannu swyddi, e.g. pwy fydd yn ffurfio argymhelliad; pwy a sut fydd ymateb i ymholiadau gan y Wasg; cyfathrebu ynghyd a'r berthynas gyda Pennaeth Adran; sut y byddai swyddogaethau yn cael ei amlygu a'i cyfathrebu; os y bydd 'lead' rhwng y rhai sydd yn rhannu swydd a beth mae hyn yn olygu o ran rhannu gwaith. Dylai'r Arweinydd fod yn sefydlu y trefniadau wrth fynd ati i gydsynio a phenodi aelodau Cabinet.
- 2.8 Rwyf wedi gweithredu y newid yn deillio o Adran 58 gan ei fod yn ofyn statudol i gael darpariaeth ar gyfer rhannu swyddi yn y Cyfansoddiad.

### **2.6.3 Newid Deddfwriaethol**

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.

## **Sylwadau Swyddogion Statudol**

### **Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

### **Swyddog Cyllid**

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

